# MESUR (TAI) CYMRU 2011

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

***Pennod 4 - Dirymu Cyfarwyddyd I Atal Dros Dro Yr Hawl I Brynu***

***Adrannau 23 a 24 Dirymu cyfarwyddyd***

55. Caiff awdurdod wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru i ddirymu cyfarwyddyd cyhyd â bod yr amod yn adran 23(2) yn bodoli. Yr amod hwnnw yw nad yw'r galw am dai cymdeithasol a gwmpesir gan y cyfarwyddyd yn sylweddol uwch na'r cyflenwad ohonynt, neu nad yw'n debygol o fynd felly, neu hyd yn oed os mai dyna'r sefyllfa, nad yw arfer yr hawl i brynu yn debygol o gynyddu'r anghydbwysedd hwnnw. Mae'n rhaid i gais esbonio pam fod yr awdurdod wedi dod i'r casgliad bod yr amod hwn yn bodoli.

***Adran 25 – Penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais***

56. Mae adran 25 yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru wrthod cais i ddirymu pan fo'r awdurdod wedi methu â rhoi gwybodaeth o dan adran 27. Mae'n rhaid iddynt ganiatáu'r cais os ydynt yn cytuno â rhesymau'r awdurdod dros gasglu bod yr amod yn adran 23(2) yn bodoli. Os caniateir y cais, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig o'r ffaith honno a bydd y cyfarwyddyd yn peidio â chael effaith ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.